



# SWYDDFA CYMRU

## TASGLU ECONOMI WLEDIG

ADRODDIAD CRYNO

---

Swyddfa Cymru  
Ty Discovery  
Harbwr Scott  
Caerdydd  
CF10 4HA

[www.swyddfacymru.gov.uk](http://www.swyddfacymru.gov.uk)

© Hawlfraint y Goron 2011

# CYNNWYS

---

1. RHAGAIR GAN Y GWEINIDOG	1
2. CRYNODEB O'R CANFYDDIADAU	2
3. CRYNODEB O WEITHGAREDD Y LLYWODRAETH	4
4. CASGLIADAU	12



# 1 RHAGAIR GAN Y GWEINIDOG

---

**Yr haf diwethaf** fe wnaethom ofyn i swyddogion yn Swyddfa Cymru fwrw ymlaen gyda menter i archwilio'r prif faterion sy'n effeithio ar yr economi wledig yng Nghymru. Roeddem yn hynod o falch o gael lansio hyn yn Sioe Môn ym mis Awst.

Fe wnaethom ysgrifennu at amrediad eang o gynrychiolwyr o gymunedau a busnesau gwledig ledled Cymru, gan ofyn iddynt glustnodi materion oedd, yn eu barn hwy, yn effeithio ar gymunedau gwledig Cymru ac awgrymu atebion posibl.

Cred y Llywodraeth hon fod gwleidyddion wedi treulio gormod o amser yn y gorffennol yn canfod problemau pobl ar eu rhan ac yna'n creu'r atebion maent hwy am weld i'r problemau hynny. Mae ein hagwedd ni'n wahanol. Rydym yn credu y dylai llywodraeth ofyn i bobl beth ydy eu pryderon a beth maent yn credu ddylid ei wneud a gellid ei wneud i wella eu bywydau.

Mae ein Rhaglen ar gyfer y Llywodraeth, yr Adolygiad o Wariant, a chynnwys y Mesur Seneddol Ynghylch Diogelu Rhyddidau, yn dangos cymaint yr ydym yn credu mewn ymgynghori â'r cyhoedd. Ein 'Sialens Tâp Coch' ydy'r ymgynghoriad cyhoeddus mwyaf erioed ynghylch rheoleiddio. Rydym yn credu mewn gwrando ar bobl.

Derbyniwyd amrywiaeth o ymateb, a oedd yn adlewyrchu pa mor gymhleth a dyrys ydy'r materion sydd yn bwysig i bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Gymru wledig. Roedd y pryderon hyn yn amrywio o bris tanwydd i wasanaethau lleol fel swyddfeydd post.

Rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn amlygu'r pryderon hynny. Ar y cyd â swyddogion Swyddfa Cymru, rydym yn gweithio tuag at dynnu sylw at yr effaith y mae'r materion hyn yn ei gael ar y Gymru wledig a thuag at awgrymu atebion, lle bo hynny'n briodol, i gydweithwyr yn y llywodraeth.



**Y Gw. Anrh. Cheryl Gillan AS**  
Ysgrifennydd Gwladol Cymru



**David Jones AS**  
Is-ysgrifennydd Seneddol  
Cymru

# 2

## CRYNODEB O'R CANFYDDIADAU

---

Derbyniwyd amrywiaeth eang o ymatebion yn tynnu sylw at y materion a oedd yn bwysig i rai sydd yn byw ac yn gweithio yn y Gymru wledig. Roedd peth o'r ymateb yn ôl y disgwyl, yn cyfeirio at faterion a oedd eisoes wedi cael eu dwyn i sylw Gweinidogion Swyddfa Cymru yn ystod cyfarfodydd gyda grwpiau â diddordeb yn y bywyd gwledig mewn sioeau amaethyddol ledled Cymru. Roedd llawer o'r rhai a ymatebodd yn codi materion penodol i'w haelodau, ond roedd rhai materion yn gyffredin i'r holl ymatebion.

### **Band eang**

Un o'r materion cyffredin iawn a godwyd gan yr ymatebwyr oedd darpariaeth a chyflymder band eang mewn ardaloedd gwledig. Dangosai'r dystiolaeth a gyflwynwyd gysylltiadau araf neu hyd yn oed dim cysylltiad band eang o gwbl. Roedd y data ynghlwm yn dangos nad oedd 40% o'r rhai sy'n gallu cael mynediad i fand eang mewn ardaloedd gwledig yn gallu cael cyflymder mwy na 2Mbps, ac nad oedd traean ffermwyr yn gallu cael unrhyw fynediad i'r band eang. Mae hyn yn achosi peth trafferth gan fod mwy a mwy o wasanaethau yn cael eu darparu ar-lein. Y consensws oedd bod angen mwy o fuddsoddiad ar fyrder i'r seilwaith band eang ac y dylid trin band eang yn union fel unrhyw wasanaeth seilwaith arall, e.e. y gwasanaethau cyhoeddus, wrth gynllunio datblygiadau eiddo yn y dyfodol.

### **Treth Tanwydd a Cherbydau (VED)**

Codwyd pris tanwydd ac effaith treth tanwydd hefyd yn aml iawn. Teimlai ymatebwyr fod prisiau tanwydd mewn ardaloedd gwledig yn uwch na'r cyfartaledd. Teimlid bod oblygiadau cyllidol gorsafoedd petrol anghysbell a'r ffaith fod trigolion cefn gwlad yn dibynnu ar gerbydau personol oherwydd diffyg trafniadaeth gyhoeddus o gymharu ag ardaloedd trefol, yn golygu mwy o faich ariannol. Cydnabyddid yn ogystal fod treth tanwydd yn ganran uchel o gost tanwydd, a theimlai rhai oedd â barn gref am y pwnc y gallai'r Llywodraeth glymblaid helpu trwy greu mecanwaith ar gyfer addasu treth tanwydd mewn ardaloedd gwledig.

Tynnodd llawer sylw at y ffaith fod Treth Cerbydau (VED) ar gerbydau 4x4 wedi cynyddu yn y blynyddoedd diweddar er mwyn lleihau'r effaith 'Tractor Chelsea' o gerbydau mawrion 4x4 yn cael eu defnyddio mewn ardaloedd trefol. Dadleuai'r ymatebwyr fod hyn yn gosb annheg ar berchnogion y cerbydau hyn mewn ardaloedd gwledig, lle y'u hystyrir yn hanfodol. Mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig yn y gaeaf, mae'n rhaid cael cerbyd 4x4 er mwyn cael mynediad i ffermydd. Un ateb posibl gan yr ymatebwyr fyddai cael gostyngiad ar dreth cerbydau ar gyfer cerbydau 4x4 gan ddibynnu ar god post y cyfeiriad cofrestredig.

## **Gwasanaethau Lleol**

Mynegwyd pryder ynghylch dirywiad arfaethedig gwasanaethau lleol mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig banciau, swyddfeydd post a gorsafoedd petrol. Dengys y dystiolaeth a anfonwyd i'r tasglu mai dim ond pedwar y cant o bentrefi Cymru sydd â changen banc lleol. Gall diffyg mynediad i wasanaethau hanfodol arwain at drafferthion i fusnesau a thrigolion lleol, yn enwedig rhai sydd heb gludiant preifat. Yn ogystal, cawsom wybod fod cysylltiad rhwng rôl swyddfeydd post a banciau, ac y gallai eu llwyddiant yn y dyfodol ddibynnu ar gyd-leoli er mwyn rhoi darpariaeth oddi mewn i siopau a gorsafoedd petrol prysur neu gerllaw iddynt.

## **Busnesau**

Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr pa mor bwysig oedd busnesau bychain i'r economi wledig. Awgrymodd y dystiolaeth fod Busnesau Bach a Chanolig hyd yn oed yn bwysicach mewn ardaloedd gwledig nag ydynt mewn rhannau eraill o Gymru ac y dylid gwneud mwy i annog busnesau bychain a busnesau newydd i gyflogi pobl. Cyflwynwyd y posibilrwydd o newid y gyfundrefn drethu er mwyn annog twf Busnesau Bach a Chanolig.

Wrth gwrs, mae llawer o agweddau ar gefnogaeth busnes wedi cael eu datganoli i Lywodraeth Cymru ac mae yn wastad wedi cael ei bwysleisio y dylai ffocws y gwaith hwn barhau ar faterion sydd o fewn maes gwaith y Llywodraeth glymblaid.

Codwyd materion eraill sydd yn cysylltu'n agos â llwyddiant Busnesau Bach a Chanolig yn cynnwys y credyd sydd ar gael gan fanciau; materion ynghylch ardrethi busnes, yn enwedig prisio adeiladau; a phryderon ynghylch baich gwaith rheoleiddio ar fusnesau.

Ystyrid bod yr offer prawfesur gwledig sydd ar hyn o bryd yn cael ei dreialu mewn tair adran gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn broses werthfawr er mwyn sicrhau fod effeithiau gwledig penodol yn cael eu hystyried o'r dechrau. Awgrymodd tystiolaeth fod awydd i'w weld yn cael ei ddefnyddio ar hyd a lled adrannau Whitehall. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau fod pob un o'i hadrannau yn gorfod profi bod materion gwledig wedi cael eu hystyried cyn datblygu polisi.

Ymhlith y syniadau diddorol eraill a gyflwynwyd, awgrymwyd y dylid ceisio lleihau gofynion statudol Llywodraeth Leol ar gyfer archwilio a mesur; ac y dylid cymryd camau i annog cynhyrchu a defnyddio biodanwydd ar ffermydd trwy ostwng y doll a godir.

# 3

## CRYNODEB O WEITHGAREDD Y LLYWODRAETH

---

Mae'r Llywodraeth glymblaid yn datblygu ei rhaglen i arwain at adferiad economaidd a chymdeithasol yn y Deyrnas Unedig. Mae amrywiaeth eang o waith wedi cael ei wneud ar draws y meysydd a glustnodwyd gan ymatebwyr Tasglu Gwledig Swyddfa Cymru.

### RÔL DEFRA

Er bod materion gwledig wedi cael eu datganoli bron yn llwyr, mae DEFRA yn parhau i chwarae rôl mewn perthynas â Chymru, yn enwedig gan fod Cymru a Lloegr yn rhannu ffin hir a gwledig yn bennaf. Fel pencampwr materion gwledig, mae DEFRA yn trafod cyfrifoldebau gwledig adrannau eraill y llywodraeth ar lefel gweinidogion a swyddogion ac mae llawer o'r materion hynny yn effeithio ar drigolion Lloegr a Chymru.

O'r herwydd, mae DEFRA a'r Comisiwn Cymunedau Gwledig wedi bod yn gweithio ar astudiaeth beilot er mwyn monitro effeithiolrwydd y prawf fesur gwledig a wnaed.

Un enghraifft glir o DEFRA yn ymwneud â Llywodraeth Cymru mewn prif feysydd ydy'r gwaith ar ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Bydd hyn wrth gwrs yn cael effaith sylweddol ar Gymru, ac felly mae'n hanfodol fod buddiannau Cymreig yn cael eu hystyried wrth i ni helpu ffurfio Polisi Amaethyddol Cyffredin a fydd yn gofalu am fuddiannau'r Deyrnas Unedig yn gyfan a sicrhau cymuned amaethyddol fwy cynaliadwy.

Mae rheoli dŵr a llifogydd yn faes hanfodol arall y mae DEFRA a Llywodraeth Cymru yn cydweithio arno er mwyn gofalu'n llawn am fuddiannau Cymru. Mae cydweithio wedi hwyluso cynlluniau pwysig fel 'Exercise Watermark' a oedd yn asesu sut oedd Lloegr a Chymru yn gwrthsefyll llifogydd a'n gallu ni i ymateb i'r effaith ar yr economi wledig.

### Band eang yng Nghymru

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod fod seilwaith cyfathrebu effeithiol a dibynadwy yn gynyddol allweddol i fywyd mewn cymunedau gwledig a bod yn rhaid iddi sicrhau fod trigolion cefn gwlad yn gallu manteisio ar gyfleustra gwasanaethau ar-lein - boed hynny o'r llywodraeth, awdurdodau lleol neu'r sector preifat. Dyna pam fod y Llywodraeth wedi gwneud band eang yn un o'i phrif flaenoriaethau.

Mae Cymru yn ganolog i gynlluniau'r Llywodraeth glymblaid ar gyfer gwella seilwaith band eang. Ar 10 Chwefror, daeth Canghellor y Trysorlys gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ogledd Cymru a chyhoeddi £10 miliwn o gyllid er mwyn cefnogi cymalau cyntaf band eang cyflym iawn a phrofi darpariaeth band eang mewn amgylchedd gwledig. Bydd y cyllid yn helpu datblygu'r



genhedlaeth nesaf o fand eang ym Mhwllheli a'r cyffiniau, ac yn cyd-fynd â chynllun cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. Cyhoeddir buddsoddiad pellach yn y seilwaith band eang yng Nghymru wrth i'r gwaith ddatblygu.

Mae Strategaeth Band Eang y Llywodraeth, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr, yn amlinellu ein bwriad i sicrhau fod gan Brydain y rhwydwaith band eang cyflym iawn gorau yn Ewrop erbyn 2015. Mae wedi ymrwymo i sicrhau datblygu band eang cyflym iawn ar hyd a lled y wlad, gan gynnwys ardaloedd gwledig ac anghysbell.

Mae'r strategaeth hefyd yn amlinellu sut y bydd Broadband Delivery UK yn buddsoddi'r swm o £530 miliwn y cytunwyd arno fel rhan o'r Adolygiad o Wariant yn ystod oes y Senedd hon, yn cynnwys tanwariant cyfredol y cynllun Help wrth Newid i'r Digidol. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi sut bydd y Llywodraeth yn creu amgylchedd rheoleiddio a pholisi addas er mwyn galluogi'r farchnad i gyflenwi cymaint â phosibl.

### **Pris Tanwydd**

Wrth ymdrin â'r diffyg yng nghyllideb y wlad, teimlai'r Llywodraeth glymblaid fod yn rhaid cynyddu'r dreth tanwydd yr oedd y Llywodraeth flaenorol eisoes wedi penderfynu a deddfwriaethu yn ei chylch. Dagrau'r sefyllfa ydy na ellir osgoi penderfyniadau anodd ac mae'r Llywodraeth wedi bod yn glir o'r dechrau y bydd yn rhaid bod yn deg a rhannu'r baich o leihau'r diffyg.

Er hynny, mae'r Llywodraeth yn ymwybodol o'r effaith y mae prisiau olew cynyddol yn ei chael ar brisiau tanwydd, sy'n effeithio ar ddefnyddwyr domestig yn ogystal ag ar fusnesau.

Ym mis Mehefin 2010, comisiynwyd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol (OBR) gan y Canghellor i wneud asesiad o effaith amrywiadau prisiau olew ar gyllid cyhoeddus. Bwriad y Llywodraeth oedd defnyddio'r asesiad hwn i archwilio opsiynau creu sefydlogrwydd tanwydd teg a fyddai'n cynnal gyrwyr a busnesau pan oedd prisiau olew yn uchel, er mwyn rhannu peth o'r baich.

Cyhoeddodd yr OBR ei asesiad ym mis Medi a bu'r Llywodraeth yn ystyried y canfyddiadau yn ofalus yn y cyfnod yn arwain i fyny at y Gyllideb.

Yng Nghyllideb Ebrill 2011 cyhoeddwyd bod y Llywodraeth yn gweithredu ar unwaith trwy dorri treth tanwydd o 1 geiniog y litr o 6 o'r gloch y nos ar ddiwrnod y Gyllideb. Fe wnaethom hefyd ddileu'r cymal codi treth tanwydd a fyddai wedi cynyddu'r doll o 1 geiniog uwchlaw chwyddiant bob blwyddyn nes 2014. Yn ogystal, rydym hefyd wedi sicrhau na fydd rhagor o gynnydd mewn treth tanwydd eleni trwy ohirio'r cynnydd chwyddiant-yn-unig ym mis Ebrill hyd Ionawr 2012.

Fe wnaethom hefyd gyflwyno sefydlogrwydd tanwydd teg a fydd yn helpu gyrwyr ac yn cynyddu'r dreth ar gwmnïau olew Môr y Gogledd pan fydd prisiau olew yn uchel. Bydd y sefydlogrwydd yn sicrhau fod baich prisiau olew uchel yn cael ei rannu'n decach rhwng cwmnïau olew a gyrwyr. Bydd y mesurau hyn yn cael croeso, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, lle mae'r

rhan fwyaf o bobl yn dibynnu ar eu ceir ar gyfer teithio o ddydd i ddydd neu i ennill bywoliaeth.

Cadarnhaodd y Llywodraeth hefyd fod cais rhanddirymu wedi cael ei gyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer cynllun peilot ad-daliad treth tanwydd gwledig. Bwriad hynny ydy cynnig gostyngiad treth o bum ceiniog y litr ar betrol a disel ar hyd yr Hebrides Mewnol a'r Hebrides Allanol, Ynysoedd y Gogledd, yr ynysoedd yn y Clyde a'r Ynysoedd Sili.

Clustnodwyd yr ardaloedd hynny ar gyfer cynllun peilot oherwydd eu bod mor anghysbell ac yn wahanol iawn i bob rhan arall o'r Deyrnas Unedig. Mae lleoliad yr ynysoedd hyn yn cael effaith amlwg ar bris tanwydd, sydd yn wastad wedi bod tua 20 ceiniog y litr yn ddrutach na thanwydd ar y tir mawr. Mae'r gwahaniaeth hwn mewn prisiau yn llawer mwy nag unrhyw wahaniaeth yng Nghymru ac felly mae'n briodol y dylid archwilio unrhyw gynllun yn yr ardaloedd hyn yn gyntaf.

Nid yw hyn i ddweud nad ydy'r Llywodraeth yn ymwybodol o'r effaith ddifrifol mae prisiau tanwydd uchel yn ei chael ar y Gymru wledig. Mae'r penderfyniadau i ohirio'r cynnydd yn d dreth tanwydd ar y cyd â'r gostyngiad o 1 geiniog y litr ar unwaith yn rhan o becyn ehangach gwerth £1.9 biliwn i leihau'r baich ar yrwyr o ganlyniad i'r prisiau tanwydd uchaf erioed.

### **Diwygiadau Codi Tâl Treth Cerbydau (VED) a Cherbydau Nwyddau Trwm (HGV)**

Fel rhan o becyn i helpu gyrwyr a chlodwyr, cyhoeddodd y Canghellor yn ei Gyllideb ym mis Ebrill y bydd newidiadau Treth Cerbydau yn cael eu cyfyngu i gynnydd yn ôl chwyddiant, a chyfraddau Treth Cerbydau ar gyfer Cerbydau Nwyddau Trwm yn cael eu rhewi yn 2011-12.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod fod gyrru car mwy yn angenrheidiol i rai, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac mewn tywydd garw.

Mae'r strwythur cyfredol Treth Cerbydau, a bennwyd gan y Llywodraeth flaenorol yn defnyddio mesuriadau CO<sub>2</sub> ar gyfer ceir a gofrestrwyd ar ôl Mawrth 2001 a maint yr injan ar gyfer ceir hŷn na hynny. Mae hyn yn helpu i dynnu sylw at y dewisiadau sydd ar gael o fewn pob math a dosbarth o gar er mwyn arbed tanwydd ac allyrru llai o CO<sub>2</sub>. Byddai seilio'r drefn ar godau post yn cynyddu cost casglu'r dreth a'r risg o dwyll.

Yn ogystal, mae cerbydau amaethyddol ar hyn o bryd wedi'u heithrio rhag talu treth cerbydau, ac mae modd iddynt hefyd ddefnyddio diesel coch yn hytrach na thanwydd priffyrdd, ac felly, maent yn elwa o gyfradd treth is. Ar gyfer pobl sy'n gweithio ar y tir, nid oes rhaid talu treth cerbydau pan fydd cerbyd yn cael ei ddefnyddio ar ffordd gyhoeddus i symud rhwng dau ddarn o dir am bellter o ddim mwy na 1.5 cilomedr.

Er mwyn rhoi cefnogaeth bellach i'n cwmnïau cludo, rydym yn bwriadu cyflwyno system newydd o godi tâl ar ddefnyddwyr ffordd Cerbyd Nwyddau Trwm er mwyn sicrhau trefniant gwell i gwmnïau cludo'r DU. Gwneir hyn er mwyn gwneud iawn am yr annhegwch nad oes raid i gwmnïau cludo dalu am

ddefnyddio ffyrdd y DU tra bod yn rhaid i gwmnïau cludo'r DU dalu am ddefnyddio'r ffyrdd ym mwyafrif gwledydd yr UE.

## **Gwasanaethau Lleol**

Mae gweledigaeth y Gymdeithas Fawr yn cefnogi awydd cymunedau lleol i ddiogelu gwasanaethau lleol fel swyddfeydd post, banciau a gorsafedd petrol. Mae'r Gymdeithas Fawr yn agenda newydd flaengar a fydd, gobeithio yn atgyfnerthu ein cymdeithas er gwell. Mae'r Llywodraeth eisiau symud grym i ddwylo pobl ar lefel leol, gan alluogi cymunedau i wneud newidiadau a meddwl am atebion i'w problemau.

Nid yw'n ymarferol nac yn ddymunol o hyd i'r wladwriaeth ymyrryd ar lefel leol. Dylai cymunedau gael y gwasanaethau maen nhw'n eu dewis, wedi'u teilwrio'n arbennig ar eu cyfer. Ni fydd agwedd 'yr un peth i bawb' yn gallu cyflawni hynny pob tro.

Mae dwy o dair egwyddor y Gymdeithas Fawr, sef gweithredu cymdeithasol a grymuso cymunedol, yn symud tuag at wireddu hyn. Gwelodd gweinidogion Swyddfa Cymru enghreifftiau o hyn yn gweithio yng Nghymru. Yn Nhrefglwys, yn y Canolbarth, mae cwmni cydweithredol cymunedol yn rhedeg swyddfa bost, siop gymunedol a gorsaf betrol ar yr un safle. Mae gwirfoddolwyr yn rhedeg cownter y swyddfa bost, a reolir mewn partneriaeth â'r brif swyddfa bost yn y Drenewydd. Mae'r ateb blaengar hwn wedi diogelu'r siop leol a'r orsaf betrol, a oedd ar fin cau, yn ogystal â darparu cartref i siop flodau ac ystafell de. Nid yn unig mae hyn wedi diogelu'r economi leol, ond mae hefyd wedi'i ehangu.

Nid dyma'r unig lle lle mae pobl wedi dod at ei gilydd i wella'u cymuned. Mae'r Raven Inn yn Llanarmon yn lâl yn cael ei rhedeg gan y gymuned leol, a bellach mae'r trigolion yn cynnal swyddfa bost yn ogystal â gwneud y prif waith o redeg tafarn.

Mae enghreifftiau fel y rhain yn ysbrydoliaeth i gymunedau gwledig eraill ledled Cymru. Dyma beth ydy cryfder y Gymdeithas Fawr - pobl leol yn dod at ei gilydd er mwyn diogelu'r hyn maen nhw'n ei drysori, perchnogi eu cymunedau trwy gael mwy o rym, a chael mwy o gyfle i wneud penderfyniadau.

Ddechrau'r hydref, mae Swyddfa Cymru yn bwriadu cynnal seminar ar y Gymdeithas Fawr yng Nghymru gan ddod â gweinidogion, rhanddeiliaid ac ymarferwyr at ei gilydd i drafod y cyfleoedd yn y weledigaeth. Byddwn hefyd yn ceisio clustnodi unrhyw rwystrau rhag gweithredu'r weledigaeth hon yng Nghymru a sut y ceir gwared arnynt.

## **Cefnogaeth i Fusnesau Bach a Chanolig**

Mae'r Llywodraeth glymblaid yn cydnabod mai'r sector preifat fydd yn arwain yr adferiad economaidd yn y DU, ac mai ei chyfrifoldeb ydy creu hinsawdd lle mae'r sector preifat yn gallu tyfu a llewyrchu. Gwnaethpwyd newidiadau

arwyddocaol eisoes ers Mai 2010 a bydd y Llywodraeth yn parhau i weithio tuag at gefnogi'r sector preifat.

Cyflwynodd y Llywodraeth glymblaid becyn o ddiwygiadau i leihau cyfraddau treth gorfforaeth gyda'r brif gyfradd yn cael ei gostwng 2% eleni, gan fynd o 28% i 26%. Erbyn 2014 bydd y gyfradd wedi gostwng i 23%. Mae'r gyfradd elwau bychain hefyd wedi gostwng i 20% yn Ebrill 2011, sy'n golygu y bydd gan y DU y gyfradd dreth gorfforaeth isaf yn yr G7 ac un o'r cyfundrefnau mwyaf cystadleuol yn yr G20. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ymestyn Gostyngiad Treth Enillion Cyfalaf i Entrepreneuriaid o'r £2miliwn cyntaf i'r £5miliwn cyntaf o enillion yn ystod oes. Dengys hyn pa mor benderfynol ydy'r Llywodraeth o annog entrepreneuriaeth.

Fis Mehefin diwethaf, yn y Gyllideb Frys, penderfynwyd y byddai'r trothwy pan fo cyflogwyr yn cychwyn talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn cynyddu o £21 yr wythnos gan arbed £140 miliwn i fusnesau yng Nghymru. Cyflwynodd y Llywodraeth glymblaid hefyd Wyliau Yswiriant Gwladol sydd werth hyd at £50,000 i fusnesau newydd, a sefydlwyd y tu allan i Lundain a'r De Ddwyrain. Golyga'r cynllun tair blynedd hwn nad oes raid i fusnesau newydd mewn ardaloedd penodol dalu'r £5,000 cyntaf o Gyfraniadau Yswiriant Gwladol 'dosbarth un' yn ystod mis cyntaf cyflogaeth pob un o'r deg gweithiwr cyntaf a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf o fasnachu. Mae'r Gwyliau Yswiriant Gwladol hwn yn enghraifft wych o fwriad y Llywodraeth i annog ac ysgogi twf ledled y wlad, yn cynnwys ardaloedd gwledig.

Bwriedir dyfarnu 25% o gytundebau newydd y Llywodraeth i fusnesau bach a chanolig. Gwneir hyn trwy ystyried y prif rwystrau sy'n wynebu busnesau bychain wrth iddynt gystadlu am gytundebau sector cyhoeddus a'i gwneud hi'n haws canfod cyfleoedd i wneud busnes â'r sector cyhoeddus. Ym Mawrth 2011, cyflwynodd y Llywodraeth gyfleuster newydd - *Contracts Finder* - a fydd yn galluogi Busnesau Bach a Chanolig i ganfod cyfleoedd caffael cyhoeddus yn haws ar-lein.

Yn y lle cyntaf, estynnodd y Llywodraeth y cynllun Gwarant Cyllid Menter (EFG), sef cynllun gwarantu benthyciad sy'n helpu hwyluso benthyciadau banc ychwanegol i fusnesau hyfyw, o £200miliwn i £700miliwn, a'i alluogi i redeg hyd Mawrth 2011. Yn dilyn hynny, mae'r Llywodraeth wedi rhoi ymrwymiad i barhau i gefnogi'r cynllun Gwarant Cyllid Menter hyd 2014-15, gan ddarparu hyd at £600miliwn o fenthycia ychwanegol i tua 6,000 o fusnesau bob blwyddyn. Ers Ebrill 2010, mae'r Gwarant Cyllid Menter wedi cymeradwyo gwerth dros £18.5 miliwn o fenthyciadau i ragor na 180 o ymgeiswyr yng Nghymru yn unig.<sup>1</sup>

Mae allforion yn chwarae rhan bwysig yn economi Cymru. Roedd allforion o Gymru werth £11.8biliwn yn 2010. Er hynny, rydym yn cydnabod nad ydy busnesau bach a chanolig yn gallu manteisio'n llawn ar farchnadoedd allforion o hyd. Yn y DU, mae yna 4.4 miliwn o Fusnesau Bach a Chanolig ond dim ond 1 ymhob 5 sydd ar hyn o bryd yn allforio nwyddau a gwasanaethau. Pe byddem yn cynyddu canran allforwyr Busnesau Bach a Chanolig o 1 i 5 i

---

<sup>1</sup> Ers 22 Mehefin 2011

1i4, yn unol â chyfartaledd cyfredol yr UE, gallem ychwanegu cymaint â £40biliwn at allforion y DU. Mae hyn yn sylweddol gan mai diffyg cyfrif cyfredol y DU yn 2009 oedd £23biliwn, a thrwy allforion Busnesau Bach a Chanolig, mae'n bosibl i ni gael gwared ar y diffyg ym masnach y DU.

Mae Masnach a Buddsoddi'r DU (UKTI) yn darparu cefnogaeth werthfawr i Fusnesau Bach a Chanolig ledled y DU, gan gynnwys y busnesau hynny sydd yng Nghymru, trwy amrywiaeth eang o raglenni gyda'r bwriad o greu rhwydweithiau a gwasanaethau cynghori a chefnogi. Ym mis Mai, lansiodd Strategaeth Masnach a Buddsoddi'r DU gynllun 'Prydain ar agor i Fusnes', sy'n ddatblygiad o hyn. Trwy dargedu gwasanaethau i fusnesau bach a chanolig blaengar a llewyrchus, rydym am annog mwy o gwmnïau i allforio trwy helpu allforwyr cyfredol gyrraedd mwy o farchnadoedd newydd a rhai twf uchel.

## **Benthyciadau Banc**

Ar 9 Chwefror 2011, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys fanylion 'Prosiect Merlin', a sicrhodd gytundeb rhwng y Llywodraeth a phump o brif fanciau stryd fawr y DU. Mae HSBC, Barclays, y Royal Bank of Scotland, Grwp Bancio Lloyds a Santander wedi ymrwymo i sicrhau bod hyd at £190biliwn o gredyd ar gael i fusnesau yn 2011. Mae £76biliwn o hwn yn mynd i fod ar gael i fusnesau llai, sy'n golygu cynnydd o 10% o gymharu â'r benthyciadau i Fusnesau Bach a Chanolig yn 2010.

Roedd hyn yn dilyn ymgynghoriad yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau ynghylch Cyllido Adferiad Sector Preifat ym mis Gorffennaf 2010. Ystyriodd yr ymgynghoriad ffyrdd o sicrhau fod gan y DU system ariannol sy'n hwyluso busnes - mae hyn yn ganolog i awydd y Llywodraeth glymblaid i weld twf.

Mae Cymdeithas Bancwyr Prydain (y BBA) wedi sefydlu a buddsoddi mewn Cronfa Twf Busnes newydd gwerth £1.5biliwn a fydd yn darparu cyllid ecwiti hyblyg i Fusnesau Bach a Chanolig. Byddwn yn gweithio gyda'r banciau i sicrhau bod y cynllun hwn yn cael ei weithredu yn llwyddiannus ac yn effeithlon.

Mae'r Llywodraeth glymblaid hefyd yn awyddus i weld gwell perthynas rhwng busnesau a banciau ac mae'n croesawu set newydd o fesurau Cymdeithas Bancwyr Prydain er mwyn gwella tryloywder a hygredded ymrwymadau'r banciau wrth iddynt ddelio â chwsmeriaid trwy gyfrwng cod benthycia diwygiedig, ymrwymadau newydd i ficrofentrau ac estyniad o egwyddorion benthycia ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig mwy.

Yn y Gyllideb, cyhoeddodd y Canghellor ddiwygiadau sylweddol i'r Cynllun Buddsoddi Menter (EIS) a'r cynlluniau Ymddiriedolaeth Cyfalaf Menter, yn cynnwys cynyddu cyfradd gostyngiad yn y dreth incwm EIS i 30% a chynyddu maint y cwmnïau cymwys ar gyfer y ddau faint. Golyga hyn y bydd mwy o gwmnïau yn gymwys ac yn annog mwy o fuddsoddi mewn cwmnïau sy'n wynebu rhwystrau wrth geisio cael ffynonellau allanol o incwm.

## **Ardrethi Busnes**

Tra bod Ardrethi Busnes wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru, mae Cymru yn parhau i ddefnyddio'r un ddeddfwriaeth sylfaenol â Lloegr er bod ganddi ei

his-ddeddfwriaeth ei hun. Mae'r Asiantaeth Swyddfa Brisio (VOA) yn gyfrifol am raddio busnesau ar ran Llywodraeth Prydain yn Llundain a Llywodraeth Cymru yng Nghymru. Gwneir penderfyniadau ar brisio yn annibynnol gan yr Asiantaeth Swyddfa Brisio o fewn y fframwaith a sefydlwyd gan bob Llywodraeth, sy'n golygu fod prisio yng Nghymru yn deillio o benderfyniadau polisi cyffredinol Gweinidogion Cymru. Mae proses apelio ar gael i unrhyw fusnes sydd o'r farn bod ei brisiad yn annheg. Mae Cymru hefyd yn gosod ei lluosydd ardrethi annomestig ei hun sy'n 0.428 yn 2011/12, cynnydd o 0.409 ers 2010/11. Y lluosydd yn Lloegr ar gyfer y flwyddyn ariannol gyffredol ydy 0.433.

Mae'r Llywodraeth glymblaid wedi ymrwymo i roi mwy o gefnogaeth i fusnesau bach sy'n talu ardrethi busnes yn Lloegr. Cyflwynodd gynnydd dros dro yn lefel y gostyngiad mewn treth i Ardrethi Busnesau Bach (SBRR) i fusnesau cymwys. Yn y Gyllideb cafodd y gwyliau cyffredol o ostyngiad mewn treth i ardrethi busnesau bach ei ymestyn am flwyddyn o Hydref 2011 ymlaen. Gallai'r cynnydd dros dro olygu fod rhai â busnesau cymwys â gwerth trethadwy o hyd at £6,000 yn gallu cael gostyngiad o 100%. Ar gyfer busnesau cymwys â gwerth trethadwy o rhwng £6,001 a £12,000, bydd y gostyngiad yn seiliedig ar raddfa symudol rhwng 100% a 0%. Hefyd, cyflwynodd Llywodraeth Cymru yr un gefnogaeth i fusnesau bach gan ymestyn y cynllun hyd Medi 2012.

Mae'r Llywodraeth eisoes wedi deddfwriaethu i rewi talu rhai ôl-filiau ardrethi busnes sylweddol yn Lloegr hyd Ebrill 2012. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn cyllid canlyniadol yn unol â fformiwla Barnett a gellid ei ddefnyddio i wneud yr un peth pe byddent am wneud hynny. Er hynny, maent wedi penderfynu peidio â gwneud hynny.

## **Dadreoli**

Mae'r Llywodraeth yn gweithio tuag at greu'r amodau lle gall busnesau lwyddo ac mae'n deall fod busnesau wedi gorfod ymdopi â rheoliadau diangen am gyfnod rhy hir. Gwnaed ymrwymiad yn y Rhaglen ar gyfer y Llywodraeth i gwtogi ar y gwaith papur trwy'r rheol 'Un i Mewn, Un Allan', gan gael gwared ar y diwylliant rheoleiddio ticio blychau a gosod 'cymalau machlud' ar reoliadau a rheolyddion.

Fe wnaeth ein Datganiad ar Reoliadau Newydd: 'One In, One Out' sefydlu'r holl reoliadau domestig newydd a fyddai'n cael eu gweithredu rhwng Ionawr a Mehefin 2011. Mae Datganiad ar Reoliadau Newydd yn gweithredu fel offeryn pwysig er mwyn galluogi Gweinidogion i reoli llif rheoliadau newydd, yn darparu mecanwaith ar gyfer gweithredu'r rheol 'Un i Mewn, Un Allan' ac yn golygu bod y gymuned fusnes yn cael cyfle i lawn ddeall y mesurau rheoleiddio sydd ar ddod.

Ers dod i rym, mae'r Llywodraeth hefyd wedi cwblhau arolwg sylweddol o ddeddfwriaeth lechyd a Diogelwch ac wedi gorffen 'eilunaddoli' rheoliadau'r UE, a fydd yn sicrhau na fydd busnesau Prydain o dan anfantais o gymharu â'u cystadleuwyr o rannau eraill o Ewrop.

Yn yr ymdrech i gael gwell amodau i fusnesau, ar 7 Ebrill lansiodd y Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Busnes 'Sialens y Tâp Coch', sef arena ar-lein yn rhoi'r cyfle i aelodau'r cyhoedd fynegi eu safbwynt ar reolau a rheoliadau cyfredol. Bydd y sialens hon yn edrych ar tua 21,000 o reolau a rheoliadau ar hyd sectorau amrywiol, gan gychwyn gyda'r sector manwerthu. Bydd gan bobl a busnesau mewn ardaloedd gwledig ddiddordeb mewn cael gwared ar amrywiaeth eang o reoliadau diangen; er hynny bydd yr ymgynghoriadau ar reoliadau amgylcheddol ac ynni, a fydd yn digwydd ym mis Medi a Hydref 2011, o ddiddordeb penodol o ran yr amgylchedd rheoleiddio mewn ardaloedd gwledig. Bydd yr arolwg llawn yn cymryd hyd at ddwy flynedd ac yn ystyried yr holl reoliadau yn y sectorau a ddewiswyd.

# 4 CASGLIADAU

---

Nod y gwaith hwn oedd canfod beth oedd y materion gwirioneddol bwysig ym marn trigolion cymunedau gwledig a beth yr oeddent yn credu y gellid ei wneud i'w helpu i ddelio â'r materion hynny.

Wrth gychwyn unrhyw waith yn ymwneud â materion gwledig yng Nghymru, mae'n rhaid cydnabod fod llawer o'r ysgogiadau polisi sydd yn allweddol i fywyd gwledig yng Nghymru wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru, mewn meysydd fel amaethyddiaeth, trafniadaeth leol a gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r prosiect hwn, er hynny, trwy ymwneud â'r cymunedau gwledig, wedi profi bod llawer o'r meysydd sydd yn cael effaith sylweddol ar fywyd gwledig naill ai'n llwyr neu'n rhannol o dan reolaeth Llywodraeth Prydain. Mae'r rhain yn amrywio o seilwaith band eang a chefnogaeth i Fusnesau Bach a Chanolig, i lefel treth tanwydd. Oherwydd natur datganoli, ceir gorgyffwrdd rhwng rhai materion, ac mae rhai ysgogiadau polisi sy'n effeithio'n sylweddol ar faterion sydd wedi'u datganoli ond eto nad ydynt dan reolaeth pwerau datganoledig. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar bob mater, yn cynnwys y rhai hynny sy'n torri ar draws y setliad datganoli, er budd Cymru. Mae buddsoddi mewn seilwaith band eang yn enghraifft wych o gydweithio llwyddiannus.

Ochr yn ochr â chydweithwyr ar draws llywodraeth, rydym eisoes wedi clustnodi amrywiaeth eang o newidiadau polisi, sydd yn yr arfaeth neu eisoes ar waith, a fydd yn dechrau delio â llawer o'r materion y tynnwyd sylw atynt yn ein hastudiaeth. Tra bod rhai o'r rhain yn destun pryder i bobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol hefyd, mae'r effaith ar gymunedau gwledig yn llawer mwy.

Rydym yn ymwybodol nad y llywodraeth sy'n gallu cynnig yr unig ateb i rai o'r materion hyn. Er enghraifft mae cyfle i gymunedau gamu i'r adwy a diogelu gwasanaethau a darpariaethau lleol.

## **Rôl y Gymdeithas Fawr**

Mae gweledigaeth y Gymdeithas Fawr yn gweld cymunedau yn rheoli, cynllunio gwasanaethau ar gyfer eu hanghenion penodol eu hunain a lle nad ydynt yn dibynnu ar gyrff mawr sydd ymhell o'u bywydau bob dydd i'w rheoli o bell.

Efallai bod rhai gwasanaethau lleol yn addas i gael eu rheoli gan drigolion lleol. Gellir canfod ffyrdd blaengar newydd o redeg gwasanaethau, ac fe all hyrwyddo safle un gwasanaeth lleol fel canolbwynt ddenu gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau eraill.



Mae gweledigaeth y Gymdeithas Fawr yn cynnig ffordd ymlaen yn y materion hyn. Dengys yr enghreifftiau sydd eisoes ar waith yn y Gymru wledig (y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn) yr hyn y gellir ei wneud pan fydd cymuned yn penderfynu cymryd rheolaeth a dod at ei gilydd i gynllunio ateb ar gyfer problem leol. Mae gan y Llywodraeth glymblaid rôl alluogi yn y Gymdeithas Fawr, a bydd yn sefyll ysgwydd wrth ysgwydd gyda'r rheini sydd am ei hadeiladu, gan ddarparu'r cyngor a'r gefnogaeth angenrheidiol.

Wrth gwrs yng Nghymru mae llawer o'r elfennau sy'n rhan o weledigaeth y Gymdeithas Fawr wedi cael eu datganoli. Mae datganoli ei hun yn unol â'r weledigaeth hon, ac yn anelu at wneud mwy o benderfyniadau a symud o'r canol. Ni all y Llywodraeth glymblaid greu amodau ar gyfer y Gymdeithas Fawr ar ei phen ei hun yng Nghymru a bydd yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru wrth i'n gweledigaeth ddatblygu.

Dengys ein canfyddiadau bod Cymru ar flaen y gad wrth ystyried egwyddorion y Gymdeithas Fawr. Mae'r syniad o gymunedau lleol yn gweithio gyda'i gilydd er lles y gymuned yn rhan annatod o fywyd Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig neu led-wledig.

## **Cynllun ar gyfer Twf**

Adlewyrchir ymrwymiad y Llywodraeth i ddelio ag anghenion penodol cymunedau gwledig yng nghyhoeddiad diweddar Cam 2 y Cynllun ar gyfer Twf a fydd yn parhau trwy gydol cyfnod y Senedd hon. Prif elfen yr ail gam hwn fydd edrych ar yr economi wledig. Bydd y Llywodraeth yn edrych yn ofalus ar y cyfyngiadau, y cyfleoedd a'r risgiau sy'n effeithio ar dwf economaidd mewn ardaloedd gwledig, ac yn ystyried materion penodol gan gynnwys nodweddion marchnad llafur. Gwneir y gwaith hwn er mwyn clustnodi atebion a chreu'r hinsawdd gywir i gwmnïau fuddsoddi a thyfu mewn ardaloedd gwledig. Bydd manylion sut bydd hyn yn cael ei wneud yn cael eu cyflwyno yn yr hydref.

## **Y Dyfodol**

Ers dyddiau cynnar y gwaith hwn, roedd hi'n amlwg na fyddai yna unrhyw atebion sydyn a hawdd i'r materion a godwyd. Erys hyn yr un peth. Mae angen strategaeth glir a buddsoddiad tymor-hir mewn seilwaith ar rai ohonynt, er enghraifft yr angen am wella darpariaeth band eang. Mae eraill yn ymwneud mwy â chreu'r amodau a fydd yn sicrhau fod gwasanaethau allweddol ar gael i gefnogi cymunedau lleol a'u hiechyd economaidd.

Er bod yr adroddiad hwn yn benllanw ar waith penodol Tasglu Economi Wledig Swyddfa Cymru nid yw'n dod â'n diddordeb yn y materion a glustnodwyd i ben. Byddant yn parhau i fod yn sail i'n syniadau a'n rhyngweithio ag adrannau eraill y Llywodraeth yn y dyfodol.